

Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata

Cyflog: £36,174 - £38,133

Contract: Parhaol, Llawn amser

Rydym yn chwilio am Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata sy'n greadigol ac yn meddwl yn fasnachol i ymuno â'n Tîm Marchnata. Byddwch chi'n cydweithio'n agos â'r Pennaeth Marchnata i ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata cyfannol, a fydd yn gwneud argraff, i gefnogi ein strategaeth fasnachol.

Y rôl:

Chi fydd yn gyfrifol am yr holl waith cynllunio a datblygu mewn perthynas ag unrhyw ymgyrchoedd. Byddwch chi'n cefnogi'r tîm wrth iddo fynd ati i atgyfnerthu ein dulliau ysgogi ac ennyn diddordeb, gan ddefnyddio dewis o dactegau marchnata digidol ac all-lein.

Y Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata fydd yn sicrhau bod pob ymgyrch wedi'i thargeddu ac yn gweithio ar sail canlyniadau. Bydd yn defnyddio data i werthuso ac adrodd am ba mor effeithiol yw ymgyrchoedd gan nodi cyfleoedd i barhau i wella perfformiad ein hymgyrchoedd.

Amdanoch chi:

I ffynnu yn y rôl hon bydd gennych brofiad o reoli ymgyrchoedd/projectau a'r gallu i reoli sawl ymgyrch farchnata ar yr un pryd.

Bydd gan y sawl sy'n llwyddiannus y gallu i fonitro a dadansoddi data ymgyrchoedd ac i adrodd yn ôl ar lwyddiant ac argymell lle y gellid gwella.

Hefyd, bydd gennych wybodaeth gref am weithgarwch ysgogi ac ennyn diddordeb, gan gynnwys dulliau marchnata digidol ac all-lein.

Ein Buddion:

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn cystadleuol a nifer o bolisiau sy'n ystyriol o deuluoedd.

I gael gwybod mwy am y rôl, neu am weithio gyda ni, peidiwch ag oedi cyn cysylltu ag Elizabeth East (hi) (Elizabeth.East@cbac.co.uk), a fydd yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau.

Dyddiad cau: 25/07/2022

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd:	Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata
Adran:	Marchnata
Yn atebol i:	Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
Gradd:	09
Lleoliad:	Rhodfa'r Gorllewin / Hybrid
Prif ddiben y Swydd:	

Bydd eich rôl chi fel ein Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata yn bwysig o ran cyflawniad llwyddiannus ein strategaethau marchnata a masnachol yn ymwneud â CBAC ac Eduqas.

Eich cyfrifoldeb chi fydd datblygu a chyflwyno amrywiol ymgyrchoedd marchnata drwy gydol y flwyddyn. Byddwch chi hefyd yn cefnogi'r tîm wrth iddo fynd ati i atgyfnerthu ein gweithgarwch ysgogi ac ennyn diddordeb, gan ddefnyddio amrywiaeth o dactegau marchnata digidol ac all-lein.

Bydd y Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata yn gweithio'n agos â'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu i sicrhau bod unrhyw ymgyrchoedd yn rhai sydd wedi'u targedu, ar sail canlyniadau, ar amser ac yn ôl y gyllideb. Byddwch chi hefyd yn cydweithio'n agos ag aelodau'r Tîm Marchnata a rhanddeiliaid eraill, yn allanol ac ar draws y corff. Byddwch chi'n gwneud hyn i sicrhau bod ymgyrchoedd wedi'u cyflawni'n effeithiol gan ddatblygu dealltwriaeth gref o bortffolio cynhyrchion a gwasanaethau CBAC/Eduqas, cyfleoedd marchnata, a gofynion.

Eich cyfrifoldeb chi hefyd fydd gwerthuso ac adrodd am ba mor effeithiol yw ymgyrchoedd ac am adnabod cyfleoedd i barhau i wella perfformiad ein hymgyrchoedd.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Prif Gyfrifoldebau

- Llunio, datblygu, cyflwyno a rheoli ymgyrchoedd marchnata cyfannol, a fydd yn gwneud argraff, i gefnogi ein strategaeth fasnachol
 - Mae hyn yn cynnwys rheoli ymgyrchoedd wedi'u targedu i gefnogi'r broses o lansio cynhyrchion newydd
- Cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu pob ymgyrch, a llunio a rheoli'r calendr ymgyrchoedd marchnata blynyddol
 - Rheoli'r calendr ymgyrchoedd a'i gyfathrebu i'r tîm marchnata ac i'r corff yn ehangach
 - Cefnogi'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu gan dynnu sylw at weithgareddau sydd wedi'u cynllunio y mae terfyn amser iddynt gan fod yn dryloyw o ran sut y cyflawnir y targedau.
- Gweithio ar draws gwahanol swyddogaethau yn y corff er mwyn llunio a chyd-drefnu ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu, fydd yn gwneud argraff ac yn atgyfnerthu'r gweithgarwch ysgogi ac ennyn diddordeb

- Byddwch chi'n nodi ac yn argymhell cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth am ein brand a'n cynhyrchion - ac yn cyfrannu at ddatblygu llif gwerthiannau gydag awgrymiadau / ymholiadau gan ein cynulleidfa darged.
- Rheoli amryfal ymgyrchoedd gan sicrhau eu bod wedi'u cyflawni ar amser, yn ôl y gyllideb ac yn ôl yr amcanion
- Gweithio ar sail data – sicrhau bod ymgyrchoedd marchnata'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn ateb y briff ac yn adennill buddsoddiadau, gan ymyrryd/argymhell pan fo angen gwneud hynny
- Cydweithio'n agos â'n Rheolwr Marchnata Digidol a'r tîm Ymchwil i ddeall ein data cwsmeriaid a defnyddio'r data hyn i ddylanwadu ar ymgyrchoedd newydd.
- Cydweithredu â'r tîm / asiantaethau marchnata i sicrhau datblygiad amserol o asedau i gefnogi ymgyrchoedd a sianeli marchnata gan gynnwys digidol, gwe, e-bost, print a chyfryngau cymdeithasol
 - Canolbwyntio ar y cwsmer a bod yn greadigol wrth ddatblygu negeseuon marchnata, copi a diwyg a naws unrhyw ddeunyddiau cyfochrog.
- Briffio a chydweithio ag asiantaethau allanol gan gynnwys asiantaethau creadigol, digidol, ffotograffiaeth a fideo
- Sicrhau ein bod yn deall yr hyn y mae'r gystadleuaeth a'r farchnad yn chwilio amdano, a gwneud argymhellion
- Ffurio perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid ar bob lefel yn y corff er mwyn dod i ddeall anghenion y busnes, a chynhyrchion a gwasanaethau newydd a phresennol
- Rheoli cyllidebau ar gyfer ymgyrchoedd / projectau unigol ac awgrymu ffyrdd i uchafu gwerth.
- Goruchwyllo prosesau rheoli ansawdd i sicrhau bod safon uchel i'r holl farchnata yn weledol ac yn ysgrifenedig gan gydymffurfio â'r canllawiau brand.

Manyleb y Person

Teitl y swydd:	Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata
Adran:	Marchnata

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

Sgiliau a Galluoedd

Hynod ddymunol

- Sgiliau Rheoli Ymgyrchoedd / Projectau a threfnu
- Y gallu i reoli sawl ymgyrch farchnata ar yr un pryd
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, â'r gallu i gyfathrebu ar bob lefel, gan gyflwyno ac ysgrifennu adroddiadau
- Sgiliau dadansoddi data – y gallu i fonitro a dadansoddi data ymgyrchoedd
- Y gallu i lunio naratifau grymus a chyflwyno canfyddiadau ymchwil mewn ffordd a fydd yn hoelio sylw rhanddeiliaid ac yn ysgogi'r broses o wneud penderfyniadau
- Craffter masnachol a'r gallu i adnabod cyfleoedd newydd
- Y gallu i feddwl yn greadigol ac yn ochrol
- Sgiliau gweithio mewn tîm rhagorol
- Y gallu i ffynnu mewn amgylchedd sy'n datblygu
- Y gallu i wneud penderfyniadau ar lefel uwch

Dymunol

- Sgiliau ysgrifennu copi cryf ar draws amrywiol lwyfannau
- Sgiliau iaith Gymraeg

Gwybodaeth

Hynod ddymunol

- Gwybodaeth gref am ddulliau marchnata, gan gynnwys digidol ac all-lein
- Gwybodaeth gref am weithgarwch ysgogi ac ennyn diddordeb, gan gynnwys digidol ac all-lein

Dymunol

- Dealltwriaeth o'r sector addysg

Profiad

Hynod ddymunol

- Profiad o reoli/cydlynu a sicrhau bod ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus wedi'u cyflawni, gan gynnwys gweithgarwch twf a chadw cwsmeriaid
- Profiad o gefnogi datblygiad asedau a chynnwys creadigol ar gyfer ymgyrchoedd marchnata
- Profiad o weithredu amrywiaeth o dactegau marchnata i gefnogi cynnal ymgyrchoedd
- Profiad cyllidebu ymgyrchoedd

Dymunol

- Tystiolaeth o brofiad yn rheoli ymgyrchoedd marchnata Busnes i Fusnes (B2B) a Busnes i Ddefnyddwyr (B2C)
- Profiad o adrodd canlyniadau ymgyrchoedd marchnata a gweithgarwch ysgogi ac ennyn diddordeb yn ôl i randdeiliaid allweddol

Hyfforddiant / Cymwysterau

Dymunol

- Gradd mewn Marchnata – neu ddisgyblaeth gysylltiedig
- Cymwysterau / hyfforddiant CIM

Telerau ac Amodau Gwasanaeth**Terms and Conditions of Service****Teitl y Swydd/
Job Title:**

Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata

**Cyflog/
Salary:**

£36,174 - £38,133

**Gradd/
Gradd:**

09

**Gwyliau
Blynnyddol/
Annual Leave:**

25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd. Pro rata.

25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays. Pro rata.

**Pensiwn/
Pension:**Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol
The provision of the Local Government Superannuation Act apply**Math o Gytundeb:****Contract Type:** Llawn-amser / Full Time Rhan-amser / Part Time Llawn-amser Tymor Cyfyngedig / Full Time
Limited Term Rhan-amser Tymor Cyfyngedig / Part Time
Limited Term**Nifer yr oriau'r wythnos
No. of hrs per week****Diwedd y Tymor
End of Term****Diwedd y Tymor
End of Term**

/ /

**Nifer yr oriau'r wythnos
No. of hrs per week****Dull Ymgeisio:****Method of Application:**Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn 25/07/2022Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by 25/07/2022